Ydd Wir Bydd Weithgar

YSGOL GYFUN
RHYDYWAUN

Mr Mark Jones BEng (Hons), NPQH Pennaeth / Headteacher
Rhodfa Lawrence/Lawrence Ave, Penywaun, Aberdâr, CF44 9ES
Ffôn/Tel: 01685 813500; Ffacs/Fax: 01685 812208 ysgol@rhydywaun.org

Yr unfed ar bymtheg o Ionawr, 2018.

Eisteddfod yr Urdd 2018

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Er mwyn cystadlu mewn cystadleuaeth yn Eisteddfod yr Urdd, mae'n ofynnol bod eich plentyn yn aelod o'r Urdd. Os nad ydy eich plentyn wedi ymaelodi â'r Urdd yn barod (ers mis Medi 2017) mae'n ofynnol eu bod yn gwneud cyn diwedd y mis er mwyn sicrhau ein bod yn gallu eu cofrestru ar gyfer cystadlu. Os nad ydynt wedi ymaelodi erbyn 16eg o Chwefror, ni fyddant yn gallu cystadlu yn yr Eisteddfod am na fyddwn yn gallu eu cofrestru wedi'r dyddiad hwn.

Pris yr aelodaeth yw £8.50.

Os ydych am i'ch plentyn ymaelodi, a fedrwch chi ddychwelyd y slip isod gyda'r tâl o £8.50 mewn amlen i swyddfa'r ysgol os gwelwch yn dda. Mae'na modd ymaelodi'n ddi-ffwdan ar-lein hefyd trwy ymweld â gwefan yr urdd (https://www.urdd4.org/rhieni/ymaelodi.a5w). Mae'r dudalen yn eich tywys drwy'r camau yn hawdd a byddwn yn cael ein hysbysu fel ysgol pan fyddwch yn nodi enw'r ysgol. Cofiwch fod disgyblion Blwyddyn 7 eleni sydd wedi bod yn Llangrannog gyda'r ysgol wedi ymaelodi'n barod.

Yn gywir,

Gwenan Thomas Mark Jones (Prifathro)

--

Aelodaeth yr Urdd 2017-18

Dymunaf i'm mab/merch ymaelodi â'r Urdd ar gyfer y flwyddyn 2017-2018.

Enw llawn y disgybl:_____ Blwyddyn a dosbarth cofrestru: _____

Llofnod rhiant/gwarcheidwad: _____ Dyddiad:_____